**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Adfer a Chenedlaethau'r Dyfodol

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 26 Hydref 2021 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd V M Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| D W Helliwell | M Jones | L J Tyler-Lloyd |
| L V Walton | T M White | |

**Aelodau Cyfetholedig**
Y V Jardine

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Craig Davies | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Kate Jones | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |
| Paul Thomas | Rheolwr Partneriaeth Integreiddio Cymunedol |

---

## 15 Derbyn Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 16 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Adfer a Chenedlaethau'r Dyfodol a gynhaliwyd ar 28 Medi 2021 fel cofnod cywir.

## 17 Diogelwch Cymunedol.

Cyflwynodd Paul Thomas, Rheolwr Partneriaeth Integreiddio Cymunedol, adroddiad ar ddiogelwch cymunedol. Rhoddodd anerchiad llafar mewn perthynas â'r adroddiad ysgrifenedig a ddarparwyd ac amlygodd y canlynol: -

- Roedd disgwyl i Strategaeth Diogelwch Cymunedol Abertawe Mwy Diogel gael ei hadolygu'r flwyddyn nesaf
- Pwysigrwydd ymgynghoriad cyhoeddus/ymgysylltu â'r cyhoedd
- Eglurder Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel - dim cyllideb ddyranedig ar gyfer y bartneriaeth ond ariannwyd 3 swydd drwy grant Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Cryfderau a sgiliau partneriaid a gweithio mewn partneriaeth
- Cyfrifoldeb diogelwch cymunedol
- Alinio â'r Cynllun Lleihau Troseddau

- Asesiad Lles Abertawe
- Egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i helpu i lunio'r strategaeth
- Dyletswydd newydd bosib o ran trais difrifol i'w chynnwys yn y strategaeth wedi'i diweddaru
- Cymunedau Cryfach - ymagwedd diogelwch cymunedol cyffredinol gan gynnwys camerâu mewn mannau problemus i gynorthwyo gydag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, tipio anghyfreithlon a difrod troseddol
- Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) ar gyfer pobl sy'n ddiamddiffyn ar y stryd - derbyniwyd dros 110 o atgyfeiriadau hyd yma gyda rhywfaint o lwyddiant wrth weithio gyda darparwyr tai a darparwyr camddefnyddio sylweddau
- Ffrwd waith trais domestig - tai diogel
- Poster diogelwch cymunedol tîm pêl-droed Dinas Abertawe
- Y Stryd Fawr - gwnaed gwelliannau ond mae gwaith yn parhau mewn perthynas â gweithwyr rhyw a llinellau cyffuriau, pryderon ynghylch dadleoli a sicrhau bod gwaith ymgysylltu yn parhau
- Pobl yn parhau i ddefnyddio'r Hwb Cymunedol

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Cefnogaeth barhaus ar gyfer gweithwyr rhyw - newid y ffordd o weithio
- Monitro Dangosyddion Perfformiad ac adrodd arnynt - agweddau statudol ac anstatudol
- Nodi meysydd sy'n peri pryder ac adrodd arnynt
- Ehangu gwaith gyda'r gymuned fusnes - cyfleoedd gyda gwaith adfywio parhaus
- Rheoli'r Hwb Cymunedol
- Syniadau posib ar gyfer yr Hwb Cymunedol - cyrsiau coginio, clwb ieuenctid dros dro, sinema dros dro, ardal ar gyfer tyfu llysiau - sicrhau bod yr Hwb Cymunedol ar gael i bawb
- Cynnwys y gymuned a gweithio mewn partneriaeth
- Cadw pobl yn ddienw wrth adrodd am ddigwyddiadau
- Ymweliad â'r Hwb Cymunedol y gwanwyn nesaf

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion a'r tîm am eu gwaith

**Penderfynwyd** nodi'r diweddariad.

## 18 Cynllun Gwaith 2021/22.

Cyflwynodd y Cadeirydd y cynllun gwaith ar gyfer 2021/22.

Trefnwyd gweithdai ar Gydgynhyrchu, Strategaeth y Gweithlu a Diwylliant Sefydliadol.

**Penderfynwyd** nodi'r Cynllun Gwaith ar gyfer 2021/22.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.15 pm

**Cadeirydd**